Tenantiaid Unedig. Tenants Together.
Gwneud gwahaniaeth | Making a difference

# Tenant power in action:

## A transformational year at Trivallis



Trivallis.

## At Trivallis, tenant involvement isn't something we do – it's the way we do everything. Tenants are partners on a shared journey, alongside staff and Board at Trivallis. This report is just a snapshot of the difference tenants make for the benefit of all.

As we move on our journey, we are constantly looking to strengthen this relationship. As a large local employer, we also have many tenants employed across our teams, meaning the passion and knowledge for our communities is embedded in our organisational DNA.

This year, tenant involvement has deepened across Trivallis, with more tenants taking leadership roles, shaping strategic decisions, attending Board and contributing to our committees.

> **Thank you for believing in me. Not only was I known as the 'two-person visit' and 'trouble maker' but I had a bad reputation within Trivallis. Being able to give back to my community really has helped my mental health. Starting a new project from scratch is hard work but I love it. The highlight for me was visiting the local school and holding a meeting... seeing the head teacher again after all these years... A real pinch-me moment that I've done well for myself.**
>
> **– Tenant Leader, Community Project Volunteer**



This quote is a powerful reminder of what tenant involvement can achieve when individuals are empowered to lead. It exemplifies the transformation at the heart of our work: from stigma and struggle to pride and participation. Our commitment to involving tenants in shaping their communities is beginning to spark meaningful change - socially, environmentally, and personally.

From neglected neighbourhoods to vibrant community spaces, this report outlines how we are not just delivering services but co-creating solutions with the people who live them every day.

The past year has seen the Tenant Action Panel (TAP) reenergised, working groups empowered, and local leaders emerge from within our homes and streets.

## Driving impact through involvement

This year, involved tenants at Trivallis gained national recognition at the TPAS Cymru Awards; credit to the amazing team of involved tenants and dedication of outgoing chairperson, Emma Nicholas.

Involved tenants also worked together with staff to organise T-Fest, a celebration and appreciation of over 120 tenants who are giving their time, energy and skill making a difference to Trivallis or their communities.

In January, Eloise Hinkinson and Martin Barraclough were elected Chair and Vice Chair of our Tenant Action Panel. Under their leadership, a new Terms of Reference and guide to involvement were finalised, building on openness and accessibility. Early results show a rise in new members.

Tenants actively influenced recruitment, procurement, contractor selection, and service improvement, embedding meaningful involvement at every level, including the appointment of two Directors.

A fresh brand, **Tenants Together**, is currently in development, with a recruitment campaign set to scale.

## Working group highlights

### Neighbourhoods and estates working group

- Inspired 8 Great Estate Days across our communities bringing Trivallis, the local council and most importantly, local residents to work together to improve areas. These events have become catalysts for community-led action.
- Advised on reducing patch sizes of housing officers and moving towards a more personable service.

### Complaints group

- Tenant advice helped increased satisfaction
- Improved appointment reliability by **3%**

### Repairs group

- Tenant advice helped reduce the repairs backlog, so we are now one of the most improved repairs services in the country and still improving
- Advocated for increasing missed appointment compensation for tenants from **£5 to £15**

### Recharges task group

- Introduced fairer charging policies for misuse of emergency repairs

### Community grants panel

- Allocated **£32,903** to **42 tenant-led initiatives**

### Assets group

- Piloted **tenant involvement in contractor selection**
- Developed tenant-informed contractor performance reviews

### Anti-social behaviour group

- Being restructured alongside the Neighbourhoods Team

### Solar panel group

- Investigating historical agreements around solar installations in sheltered housing

### Sheltered housing

- Working with staff, tenants planned and delivered the winter of wellbeing which provided a range of services and activities to combat social isolation.

Tenants also played a strategic role in recruiting new staff and procuring new contracts.

## Community development – from transaction to transformation

Our community development approach is spearheading a shift from transactional service delivery to strength-based community building.

**Cae Fardre**

Residents now lead a local hub offering food pantries, mental health services, and family activities, fostering long-term safety and resilience.

**Cwmbach**

We worked with communities to create community ownership of environmental spaces which improved issues with fly tipping and made better use of nature for leisure.

**Library Court**

Residents have taken over management of community facilities at the scheme to deliver activities that promote wellbeing.

**Maes y Deri**

Community-led action has turned neglected spaces into a thriving, clean environment and a place where local residents have reported feeling much safer and more connected.

**Miskin**

Strengthened community ties through benefit schemes.

**Pen Dinas**

Residents have taken ownership of a youth programme previously led by Valleys Kids.

**Penrhys**

Collaborating with community leaders to involve local people in working with architects and planners to shape their own redevelopment. Sessions introducing local young people to trades training and employment opportunities. Revival of local nature area

**St Andrews Court / Hawthorn / Penywaun / Glyncoch / Pant y Cerdin**

Tenant-led improvements following Great Estate Days.

**Tonyrefail**

Revitalised town centre with local business support.



These quotes give a flavour of what this kind of action means for local people:

> **The community needs this. So many people are struggling that this will help them not only with food but to meet new friends and get them out of the house!**
>
> **– Tenant**

> **Even though I suffer with my mental health, doing this at the moment is actually giving me something to get up for each day. I don't work as I have joint pain amongst other things so this is like a job to me and gives me routine. We have so many ideas it's a great chance for us to help the community.**
>
> **– Tenant**

## Rise Strong project

We received funding from the Welsh Government's Child Poverty grant scheme to work between September 2024 and March 2025 with families in three areas:

- **Penrhys**
- **Caradog Primary School Catchment, Aberdare**
- **Cae Fardre, Church Village**

Over six months the project:

- **Involved 597 people in community activities**
- **Strengthened three community-led groups to develop their role in meeting community needs, building confidence, skills and networks**
- **Supported the development of sustainable relationships between community groups, schools, voluntary organisations and other services in each of the three areas**

The independent evaluation of the project highlighted some features that are indicative of the power of strength-based, community development:

- Attractive activities build community. People will come together because they want to do something that sounds fun. Once that coming together has built relationships and confidence, it becomes possible to also address other needs, such as debt.
- Projects usually require people to describe what they will do and with whom, before they get started. Giving people the freedom to experiment with approaches allows a completely different way to work. In each area the work was focused on reaching out to new people, taking a risk with a new way of doing things.... and in each case, it paid off. In Caradog school, for example, they said that they had tried to involve parents before but it had never worked. Now local families are sharing skills and people who were previously isolated are much more connected.
- Although a short-term project, the work supported is sustainable and everyone involved has learned something.

## Looking ahead

All team members have now trained as trainers with **Cormac Russell** in Asset-Based Community Development (ABCD). We will continue to build on and embed a strength-based transformation approach across Trivallis.

We are recruiting a Community Benefits Partner to maximise our social value impact over the next year and beyond.

**One voice, one street, one hub at a time — our communities are rising stronger.**

> **This year has shown just how powerful tenant involvement can be. We've seen real changes driven by the voices of people who live in our communities. It's been inspiring to work alongside so many passionate tenants — proving that when we come together, we really can make a difference.**
>
> **– Eloise Hinkinson, Chair of the Tenant Action Panel**

## Tenant involvement in 2024-25

| Activity | Total participants (conversations and volunteering together) | Number who are tenants |
|---|---|---|
| Maes Deri Great Estates Day and Monthly Follow Up Meetings | 28 | 22 |
| Rise Strong Project incorporating Cae Fardre, Aberdare and Penrhys | 592 | 300 |
| Penrhys redevelopment conversations and nature garden | 110 | 85 |
| Pany y Cerdin Great Estates and follow up | 12 | 12 |
| Penywaun | 55 | 35 |
| Heol y Mynydd Event / support | 35 | 35 |
| Cardiff Bay event | 75 | 50 |
| Too Good to Waste partnership | 40 | 40 |
| Cwmbach community event | 45 | 25 |
| Pen Dinas community group support | 7 | 7 |
| Gilfach events and work | 5 | 5 |
| **Sub total** | 1004 | 616 |
| **Grants issued to 42 community groups** | 210 | 210 |
| **Total with grants** | 1214 | 826 |

## Edrych i'r dyfodol

Mae holl aelodau'r tîm bellach wedi dysgu i fod yn hyfforddwyr gyda **Cormac Russell** mewn Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau (ABCD). Byddwn yn parhau i adeiladu ar ddull trawsnewid sy'n seiliedig ar gryfder ac yn ymwreiddio hynny ar draws Trivallis.

Rydyn ni'n recriwtio Partner Buddion Cymunedol i fanteisio i'r eithaf ar ein heffaith ar werth cymdeithasol dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

**Un llais, un stryd, un ganolfan ar y tro – mae ein cymunedau ar i fyny**

**Mae eleni wedi dangos pa mor bwerus y gall cynnwys tenantiaid fod. Rydyn ni wedi gweld newidiadau go iawn wedi'u llywio gan leisiau pobl sy'n byw yn ein cymunedau. Roedd yn ysbrydoledig gweithio ochr yn ochr â chymaint o denantiaid angerddol – gan brofi y gallwn ni wneud byd o wahaniaeth trwy ddod at ein gilydd.**

**– Eloise Hinkinson, Cadeirydd y Panel Gweithredu Tenantiaid**

### Cynnwys tenantiaid yn 2024–25

| Gweithgarwch | Cyfanswm y rhai fu'n cymryd rhan (sgyrsiau a gwirfoddoli gyda'n gilydd) | Nifer sy'n denantiaid |
|---|---|---|
| Diwrnod 'Great Estates' Maes Deri a chyfarfodydd dilynol misol | 28 | 22 |
| Prosiect 'Rise Strong' yn cwmpasu Cae Fardre, Aberdâr a Phen-rhys | 592 | 300 |
| Sgyrsiau am ailddatblygu Pen-rhys a gardd natur | 110 | 85 |
| Diwrnod 'Great Estates' Pant y Cerdin a chyfarfodydd dilynol | 12 | 12 |
| Pen-y-waun | 55 | 35 |
| Digwyddiad / cymorth Heol y Mynydd | 35 | 35 |
| Digwyddiad Bae Caerdydd | 75 | 50 |
| Partneriaeth 'Too Good to Waste' | 40 | 40 |
| Digwyddiad cymunedol Cwmbach | 45 | 25 |
| Cymorth grŵp cymunedol Pen Dinas | 7 | 7 |
| Digwyddiadau a gwaith Gilfach | 5 | 5 |
| **Is-gyfanswm** | 1004 | 616 |
| **Grantiau i 42 o grwpiau cymunedol** | 210 | 210 |
| **Cyfanswm gyda grantiau** | 1214 | 826 |

## Datblygu cymunedol – o'r trafod i'r trawsnewid

Mae ein dull datblygu cymunedol yn arwain newid o ddarparu gwasanaethau trafodaethol i adeiladu cymuned yn seiliedig ar gryfder.

**Cae Fardre**

Mae trigolion bellach yn arwain canolfan leol sy'n cynnig pantri bwyd, gwasanaethau iechyd meddwl a gweithgareddau teuluol, gan feithrin diogelwch a gwydnwch hirdymor.

**Cwm-bach**

Buom yn gweithio gyda chymunedau i greu perchnogaeth gymunedol o fannau amgylcheddol a oedd yn gwella problemau gyda thipio anghyfreithlon ac yn gwneud defnydd gwell o natur ar gyfer hamdden.

**Library Court**

Mae trigolion wedi cymryd drosodd rheolaeth cyfleusterau cymunedol yn y cynllun i gyflwyno gweithgareddau sy'n hybu llesiant.

**Maes y Deri**

Mae camau gweithredu dan arweiniad y gymuned wedi troi mannau wedi'u hesgeuluso yn amgylchedd glân a ffyniannus, gyda'r trigolion lleol yn dweud eu bod yn teimlo'n llawer mwy diogel a chysylltiedig.

**Meisgyn**

Wedi cryfhau cysylltiadau cymunedol trwy gynlluniau buddion.

**Pen Dinas**

Mae trigolion wedi cymryd perchnogaeth o raglen ieuenctid a oedd yn arfer cael ei harwain gan Valleys Kids.

**Pen-rhys**

Cydweithio ag arweinwyr cymunedol i gynnwys pobl leol wrth weithio gyda phenseiri a chynllunwyr i lywio eu hailddatblygiad eu hunain. Sesiynau'n cyflwyno pobl ifanc lleol i grefftau, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth. Adfywio ardal natur leol

**St Andrews Court / Y Ddraenen Wen / Pen-y-waun / Glyn-coch / Pant y Cerdin**

Gwelliannau dan arweiniad tenantiaid yn dilyn diwrnodau 'Great Estates'.

**Tonyrefail**

Wedi adfywio canol y dref gyda chymorth busnes lleol.



Mae'r dyfyniadau hyn yn rhoi blas o'r hyn mae'r mathau hyn o gamau gweithredu yn ei olygu i bobl leol:

> **Mae angen hyn ar y gymuned. Mae cymaint o bobl yn ei chael hi'n anodd, bydd hyn yn eu helpu nid yn unig gyda bwyd ond i gwrdd â ffrindiau newydd a'u cael nhw allan o'r tŷ!**
>
> **– Tenant**

> **Er 'mod i'n dioddef gyda fy iechyd meddwl, mae gwneud hyn yn creu pwrpas i mi godi o'r gwely bob dydd. Dwi ddim yn gweithio gan fod gen i boen yn y cymalau, ymhlith pethau eraill, felly mae hyn fel swydd i mi ac yn rhoi elfen o arferiad i mi. Mae gennym ni gymaint o syniadau, mae'n gyfle gwych i ni helpu'r gymuned.**
>
> **– Tenant**

## Prosiect 'Rise Strong'

Cawsom gyllid gan gynllun grant Tlodi Plant Llywodraeth Cymru i weithio rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025 gyda theuluoedd mewn tair ardal:

- **Pen-rhys**
- **Dalgylch Ysgol Gynradd Caradog, Aberdâr**
- **Cae Fardre, Pentre'r Eglwys**

Dros chwe mis, mae'r prosiect wedi:

- **Cynnwys 597 o bobl mewn gweithgareddau cymunedol**
- **Cryfhau tri grŵp dan arweiniad y gymuned i ddatblygu eu rôl o ran diwallu anghenion cymunedol, gan fagu hyder, sgiliau a rhwydweithiau**
- **Helpu i feithrin cysylltiadau cynaliadwy rhwng grwpiau cymunedol, ysgolion, mudiadau gwirfoddol a gwasanaethau eraill ym mhob un o'r tair ardal.**

Tynnodd y gwerthusiad annibynnol o'r prosiect sylw at rai nodweddion sy'n arwydd o bŵer datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar gryfder:

- Mae gweithgareddau deniadol yn creu cymuned. Bydd pobl yn dod at ei gilydd am eu bod eisiau gwneud rhywbeth sy'n swnio'n hwyl. Unwaith y bydd pawb wedi dod at ei gilydd gan feithrin cysylltiadau a magu hyder, mae'n bosibl mynd i'r afael ag anghenion eraill hefyd, fel dyled.
- Mae prosiectau fel arfer yn gofyn i bobl ddisgrifio beth fyddan nhw'n ei wneud a chyda phwy, cyn dechrau arni. Mae rhoi rhyddid i bobl arbrofi gyda dulliau yn caniatáu ffordd hollol wahanol o weithio. Ym mhob ardal, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar estyn allan at bobl newydd, mentro gyda ffordd newydd o wneud pethau.... ac, ym mhob achos, fe dalodd ar ei ganfed. Yn Ysgol Caradog, er enghraifft, dywedon nhw eu bod wedi ceisio cynnwys rhieni o'r blaen, ond yn ofer. Nawr mae teuluoedd lleol yn rhannu sgiliau ac mae pobl a arferai fod yn ynysig yn teimlo'n llawer mwy cysylltiedig.
- Er mai prosiect tymor byr oedd e, mae'r gwaith a gefnogir yn gynaliadwy ac mae pawb sy'n cymryd rhan wedi dysgu rhywbeth.

## Yn Trivallis, dydy cynnwys tenantiaid ddim yn rhywbeth rydyn ni'n ei wneud – dyma'n ffordd ni o wneud popeth. Mae tenantiaid yn bartneriaid ar daith ar y cyd, ochr yn ochr â staff a Bwrdd Trivallis. Dim ond cipolwg yw'r adroddiad hwn ar y gwahaniaeth y mae tenantiaid yn ei wneud er budd pawb

Wrth i ni symud ymlaen ar ein taith, rydyn ni'n ceisio cryfhau'r berthynas hon yn gyson. Fel cyflogwr lleol mawr, rydyn ni'n cyflogi llawer o'r tenantiaid yn ein timau hefyd, sy'n golygu bod yr angerdd a'r wybodaeth am ein cymunedau wedi'u hymwreiddio yn ein DNA fel sefydliad.

Eleni, mae cynnwys tenantiaid wedi dwysau ar draws Trivallis, gyda mwy o denantiaid yn cymryd rolau arwain, yn llywio penderfyniadau strategol, yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cyfrannu at ein pwyllgorau.

> **Diolch am gredu ynof i. Yn ogystal â chael fy adnabod fel rhywun oedd yn dipyn o lond llaw ac angen 'ymweliad dau berson', roedd gen i enw drwg o fewn Trivallis hefyd. Mae gallu rhoi rhywbeth yn ôl i 'nghymuned wedi helpu fy iechyd meddwl. Mae'n waith caled dechrau prosiect newydd sbon, ond dwi wrth fy modd. Yr uchafbwynt i mi oedd ymweld â'r ysgol leol a chynnal cyfarfod... gweld y pennaeth eto ar ôl yr holl flynyddoedd... Eiliad 'pinsia fi' sy'n profi fy mod i wedi gwneud yn dda.**
>
> **– Arweinydd Tenantiaid, Gwirfoddolwr Prosiect Cymunedol**



Mae'r dyfyniad hwn yn atgof pwerus o'r hyn y gall cynnwys tenantiaid ei gyflawni pan fydd unigolion yn cael eu grymuso i arwain. Mae'n esiampl o'r trawsnewidiad sydd wrth galon ein gwaith: o stigma a strach i ymdeimlad o falchder a chymryd rhan. Mae ein hymrwymiad i gynnwys tenantiaid i lywio eu cymunedau yn dechrau sbarduno newid gwerth chweil - yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn bersonol.

O ardaloedd wedi'u hesgeuluso i fannau cymunedol bywiog, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut rydyn ni nid yn unig yn darparu gwasanaethau ond hefyd yn cyd-greu atebion gyda'r bobl sy'n byw yno bob dydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel Gweithredu Tenantiaid (TAP) wedi cael ail wynt, mae gweithgorau wedi'u grymuso ac mae arweinwyr lleol yn ymddangos o'n cartrefi a'n strydoedd.

## Llywio effaith trwy gymryd rhan

Eleni, cafodd tenantiaid sy'n cymryd rhan yn Trivallis gydnabyddiaeth genedlaethol am wneud byd o wahaniaeth, yng Ngwobrau TPAS Cymru; tipyn o glod i'r tîm anhygoel o denantiaid sy'n cymryd rhan ac i ymroddiad y cadeirydd sy'n gadael, Emma Nicholas.

Hefyd, fe wnaeth tenantiaid sy'n cymryd rhan gydweithio â staff i drefnu T-Fest, dathliad a gwerthfawrogiad o dros 120 o denantiaid sy'n rhoi o'u hamser, eu hegni a'u sgiliau i wneud gwahaniaeth i Trivallis neu i'w cymunedau.

Ym mis Ionawr, cafodd Eloise Hinkinson a Martin Barraclough eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd ein Panel Gweithredu Tenantiaid. O dan eu harweinyddiaeth, cwblhawyd Cylch Gorchwyl a chanllawiau newydd i gymryd rhan, gan adeiladu ar natur agored a hygyrchedd. Mae canlyniadau cynnar yn dangos cynnydd mewn aelodau newydd.

Cafodd tenantiaid ddylanwad ar y broses o recriwtio, caffael, dewis contractwyr a gwella gwasanaethau, gan ymwreiddio cyfraniad ystyrlon ar bob lefel, gan gynnwys penodi dau Gyfarwyddwr.

Mae'r brand **Tenantiaid Ynghyd** wrthi'n cael ei ddatblygu, gydag ymgyrch recriwtio ar y gweill.

## Uchafbwyntiau'r gweithgor

**Gweithgor cymdogaethau ac ystadau**
- Wedi ysbrydoli 8 diwrnod 'Great Estates' ar draws ein cymunedau gan ddod â Trivallis, y cyngor lleol ac, yn bwysicaf oll, trigolion lleol at ei gilydd i weithio er mwyn gwella ardaloedd. Mae'r digwyddiadau hyn wedi dod yn sbardun ar gyfer camau gweithredu dan arweiniad y gymuned
- Wedi cynghori ar leihau maint ardaloedd swyddogion tai a symud tuag at wasanaeth mwy personol

**Grŵp cwynion**
- Cyngor tenantiaid wedi helpu i gynyddu lefelau boddhad
- Wedi gwella dibynadwyedd apwyntiadau **3%**

**Grŵp atgyweirio**
- Cyngor tenantiaid wedi helpu i leihau'r ôl-groniad atgyweiriadau, felly ni yw un o'r gwasanaethau atgyweirio sydd wedi gwella fwyaf yn y wlad erbyn hyn, ac rydyn ni'n dal i wella
- Wedi eirioli dros gynyddu'r iawndal am apwyntiadau a gollwyd i denantiaid o **£5 i £15**

**Tasglu ailgodi tâl**
- Wedi cyflwyno polisïau codi tâl tecach ar gyfer camddefnyddio atgyweiriadau brys

**Panel grantiau cymunedol**
- Wedi dyrannu **£32,903** i **42 o fentrau dan arweiniad tenantiaid**

**Grŵp asedau**
- Wedi treialu **cynllun cynnwys tenantiaid wrth ddewis a dethol contractwyr**
- Wedi datblygu adolygiadau o berfformiad contractwyr dan arweiniad tenantiaid

**Grŵp ymddygiad gwrthgymdeithasol**
- Wrthi'n cael ei ailstrwythuro ochr yn ochr â'r Tîm Cymdogaethau

**Grŵp paneli solar**
- Ymchwilio i gytundebau hanesyddol ar osodiadau solar mewn tai gwarchod

**Tai gwarchod**
- Gan weithio gyda staff, cynlluniodd a chyflawnodd tenantiaid y gaeaf lles a ddarparodd gwasanaethau a gweithgareddau i frwydro yn erbyn unigedd cymdeithasol.

Roedd gan denantiaid rôl allweddol hefyd o ran **recriwtio staff newydd a chaffael contractau newydd.**

Tenantiaid Unedig.
Tenants Together.
Gwneud gwahaniaeth | Making a difference

# Pŵer tenantiaid ar waith:

## Blwyddyn drawsnewidiol yn Trivallis

